DYFED ARCHAEOLOGICAL TRUST
NEWSLETTER WINTER 2012

NEWYDDLEN GAEAF 2012
YMDDIRIEDOLAETH ARCHAEOLEGOL DYFED



ymddiriedolaeth archaeolegol
DYFED
archaeological trust

www.dyfedarchaeology.org.uk

www.archaeolegdyfed.org.uk

Dyfed Archaeological Trust is an independent organisation dedicated to the effective protection, investigation, recording and promotion of the historic environment.

Dyfed has a highly motivated professional workforce with a wide range of skills and experience. This is complemented by long established contacts and partnerships with external specialists enabling Dyfed to offer extensive consultancy and other archaeological services.

The Shire Hall, Carmarthen Street, Llandeilo,

Carmarthenshire SA19 6AF

01558 823121

Email Edward Davies — E.Davies@dyfedarchaeology.org.uk

(Limited Company No. 1198990—Registered Charity No. 504616)

www.dyfedarchaeology.org.uk

Production of this newsletter was grant-aided by Cadw

Cadw

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cynhyrchwyd y newyddlen hon gyda chymorth grant gan Cadw

Cover: Volunteers recording one of the lime-kilns on the Black Mountain as part of the Calch project.

Clawr: Gwirfoddolwyr yn cofnodi un o'r odynau calch ar y Mynydd Du fel rhan o'r prosiect Calch.

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed yw corff annibynnol sy'n ymroi i ddiogelu, ymchwilio, cofnodi a hybu'r amgylchedd hanesyddol yn effeithiol.

Mae gan Dyfed weithlu proffesiynol ac uchel eu cymhelliant syd ag amrywiaeth mawr o sgiliau of phrofiad. Ategir hynny â chysylltiadau a phartneriaethau—sy'n bod ers tro byd—ag arbenigwyr allanol sy's fodd i Dyfed gynnig gwasanaethau ymgynhori a gwasanaethau archaeolegol eraill.

Neuadd y Sir, Stryd Caerfyrddin, Llandeilo,

Sir Gaerfyrddin SA19 6AF

01558 823121

Ebost Edward Davies – E.Davies@dyfedarchaeology.org.uk

(Cwmni Cyfyngedig 1198990 - Elusen

Gofrestredig 504616)

www.archaeolegdyfed.org.uk

ARE YOU INTERESTED IN BECOMING A MEMBER OF DYFED ARCHAEOLOGICAL TRUST?

Under its constitution as a Registered Charity and a Limited Company the Trust is allowed to have up to 50 members. In recent years the number has dropped to below 40, and so the Trust is having a recruitment drive to identify potential new members. The Trust would particularly like to identify potential new members who have and interest in archaeology, history or a related field and have expertise in, but not exclusively, business, the law, public relations and politics.

Members' duties are not onerous. They are responsible for electing Trustees (who are drawn from the membership), and have to accept (or not) the Trust's annual report and accounts at the Annual General Meeting. Liability of members is limited, and it is the Trustees who invite new members to join the Trust.

If you would like to express an interest in becoming a Member of the Trust, or would like to know more about what is involved then contact the Trust Director, Ken Murphy at – 01558 823121 or email k.murphy@dyfedarchaeology.org.uk

YDYCH CHI Â DIDDORDEB MEWN BOD YN AELOD O YMDDIRIEDOLAETH ARCHAEOLEGOL DYFED?

O dan ei chyfansoddiad fel Elusen Gofrestredig a Chwmni Cyfyngedig, mae hawl gan yr Ymddiriedolaeth fod â hyd at 50 o aelodau. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r nifer wedi gostwng yn is na 40, ac felly mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal ymgyrch recriwtio er mwyn adnabod aelodau newydd posibl. Hoffai'r Ymddiriedolaeth adnabod yn benodol rai sydd â diddordeb mewn archaeoleg, hanes neu faes cysylltiedig a rhai sydd ag arbenigedd ym maes busnes, y gyfraith, cysylltiadau cyhoeddus a gwleidyddiaeth, ond nid y meysydd hynny yn unig.

Nid yw dyletswyddau'r aelodau yn feichus. Maent yn gyfrifol am ethol Ymddiriedolwyr (a gymerir o'r aelodaeth), ac mae'n rhaid iddynt dderbyn (neu beidio) adroddiad a chyfrifon blynyddol yr Ymddiriedolaeth yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Mae atebolrwydd aelodau yn gyfyngedig, a'r Ymddiriedolwyr sy'n gwahodd aelodau newydd i ymuno â'r Ymddiriedolaeth.

Os hoffech chi fynegi diddordeb mewn mynd yn aelod o'r Ymddiriedolaeth, neu os hoffech chi wybod rhagor am beth mae'n ei olygu, cysylltwch â Chyfarwyddwr yr Ymddiriedolaeth, Ken Murphy ar - 01558 823121 neu anfonwch neges e-bost at k.murphy@dyfedarchaeology.org.uk

DISCOVERING THE LOST INDUSTRIAL HERITAGE OF THE BLACK MOUNTAIN

CALCH (the Welsh word for 'lime') is an exciting new partnership project between Brecon Beacons National Park Authority, Dyfed Archaeological Trust, the National Museum of Wales and the Black Mountain Centre in Brynamman. CALCH is working to conserve and improve access to the remains of the lime industry at Herbert's Quarry, which is situated in a spectacular location on the A4069 mountain road between Llangadog and Brynamman. The remains are important because they show the development of lime production from pre-industrial exploitation to full industrialisation.

The role lime has played in creating the agricultural, industrial and urban landscapes of the Wales we know today is often overlooked. The cost of transporting lime in the 19th century was also one of the issues that led to the iconic 'Rebecca Riots'.

With improved access and interpretation Herbert's Quarry will be a fascinating place to visit and to learn about the industrial heritage, wildlife, social history and geology of the area. Linking Herbert's Quarry with existing heritage tourism and community initiatives will benefit local communities and businesses.

CALCH is funded by Brecon Beacons Trust, the Brecon Beacons Sustainable Development Fund, the Aggregates Levy Sustainability Fund (Wales) and the Cadw Heritage Tourism Project which

The dramatic and remote landscape of the lime industry on the Black Mountain.

Tirwedd ddramatig ac anghysbell y diwydiant calch ar y Mynydd Du.

is part-funded by the European Regional Development Fund through the Welsh Government.

Over the next two years there will be many different events and activities and opportunities for people to get involved in CALCH in all sorts of ways.

To find out more about the CALCH project, and how to get involved with the project please contact **Duncan Schlee** at the **Dyfed Archaeological Trust** on **d.schlee@dyfedarchaeology.org.uk** or call **01558 825984.** To discover more about our lime heritage visit our website at **www.calch.org.uk** and keep an eye out for news of CALCH events in 2013. You can also follow us on Facebook and Twitter! Search for the Dyfed Archaeological Trust.

Menna Bell of the Trust showing a group of visitors around the industrial remains on the Black Mountain.

Menna Bell o'r Ymddiriedolaeth yn tywys grŵp o ymwelwyr o gwmpas y gweddillion diwydiannol ar y Mynydd Du.

DARGANFOD TREFTADAETH DDIWYDIANNOL GOLL Y MYNYDD DU

Mae CALCH yn brosiect partneriaeth newydd a chyffrous rhwng Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed, Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Chanolfan y Mynydd Du ym Mrynaman. Mae CALCH yn gweithio i ddiogelu a gwella mynediad i weddillion y diwydiant calch yn Chwarel Herbert, a leolir mewn lleoliad trawiadol ar ffordd y mynydd, yr A4069 rhwng Llangadog a Brynaman. Mae'r gweddillion yn bwysig oherwydd eu bod yn dangos datblygiad cynhyrchu calch o ecsploetio cyn-diwydiannol i ddiwydiannaeth lawn.

Mae'r rôl y mae calch wedi'i chwarae mewn creu tirweddau amaethyddol, diwydiannol a threfol y Gymru rydym yn ei hadnabod heddiw yn cael ei hesgeuluso yn aml. Roedd y gost o gludo calch yn y 19eg ganrif hefyd yn un o'r materion a arweiniodd at y 'terfysgoedd Beca' eiconig.

Gyda mynediad a dehongli gwell bydd Chwarel Herbert yn lle diddorol iawn i ymweld ag ef a dysgu am dreftadaeth ddiwydiannol, bywyd gwyllt, hanes cymdeithasol a daeareg yr ardal. Bydd cysylltu Chwarel Herbert gyda thwristiaeth dreftadaeth bresennol a mentrau cymunedol yn elwa cymunedau a busnesau lleol.

Ariennir CALCH gan Ymddiriedolaeth Bannau Brycheiniog, Cronfa Datblygu Cynaliadwy Bannau Brycheiniog, Cronfa Gynaliadwyedd yr Ardoll Agregau (Cymru) a chan Brosiect Twristiaeth Treftadaeth Cadw a ariennir yn rhannol gan Gronfa Datblygu Ranbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

Dros y ddwy flynedd nesaf bydd llawer o ddigwyddiadau a gweithgareddau a chyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn CALCH ymhob math o ffordd.

Er mwyn dysgu rhagor am y prosiect CALCH, a sut i gymryd rhan yn y prosiect, cysylltwch â **Duncan Schlee** yn **Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed** ar **d.schlee@dyfedarchaeology.org.uk** neu ffoniwch **01558 825984.** Er mwyn dysgu rhagor am ein treftadaeth calch ewch i'n gwefan ar **www.calch.org.uk** a chadwch olwg am newyddion o ddigwyddiadau CALCH yn 2013. Hefyd, gallwch ein dilyn ar Facebook ac ar Twitter! Chwiliwch am Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed.

Volunteers on the Calch project recording the top of one of the lime-kilns.

Gwirfoddolwyr ar y prosiect Calch yn cofnodi un o'r odynau calch.

CRUGIAU CEMMAES—PREHISTORIC ENCLOSURES

Following a volunteer recruitment drive in the last Newsletter, a successful excavation was carried out at Crugiau Cemmaes in Pembrokeshire. Four trenches were opened investigating ditches of several large enclosures revealed during a geophysical survey. The ditches were very large, up to 4m wide and 2.5m deep, indicating that they were defensive in character. Unlike other enclosures in the region which were excavated into hard rock, the Crugiau Cemmaes examples were dug into soft sand. This material would have quickly eroded back into the ditches, and so it is likely that the enclosures would not have been long-lived features of the landscape. It was clear in the excavation trenches that ploughing had bitten deeply into the soft, sandy geological deposits, probably reducing the ground level considerably since the prehistoric period, and accounting for the absence of small archaeological features such as post-holes and pits. A second season of excavation in planned for 2013.

One of the excavation trenches with Crugiau Cemmaes round barrows in the background.

Un o ffosydd cloddio gyda chrugiau crwn Crugiau Cemmaes yn y cefndir.

CRUGIAU CEMMAES—CAEADLEOEDD CYNHANESYDDOL

Yn dilyn ymgyrch recriwtio gwirfoddolwyr yn y Cylchlythyr diwethaf, cynhaliwyd cloddfa lwyddiannus yng Nghrugiau Cemmaes yn Sir Benfro. Agorwyd pedair ffos er mwyn ymchwilio i ffosydd nifer o gaeadleoedd mawr a ddatgelwyd yn ystod arolwg geoffisegol. Roedd y ffosydd yn fawr iawn, hyd at 4 metr o led a 2.5metr o ddyfnder, sy'n dangos eu bod yn amddiffynnol o ran natur. Yn wahanol i gaeadleoedd eraill yn y rhanbarth a gloddiwyd i garreg galed, cafodd yr enghreifftiau yng Nghrugiau Cemmaes eu palu i mewn i dywod meddal. Byddai'r deunydd hwn wedi erydu'n gyflym yn ôl i'r ffosydd, ac felly mae'n debygol na fyddai'r caeadleoedd hyn wedi bod yn nodweddion hir eu hoes yn y dirwedd. Roedd yn glir yn y ffosydd cloddio bod aredig wedi torri'n ddwfn i'r dyddodion daearegol meddal, tywodlyd, fwy na thebyg yn gostwng lefel y ddaear yn sylweddol ers y cyfnod cynhanesyddol, ac yn cyfrif am absenoldeb nodweddion archaeolegol bach megis tyllau postyn a phyllau. Cynllunnir ail dymor o gloddio ar gyfer 2013.

Carmarthenshire Archaeology Day

Saturday 2nd March 2013

Book early to secure your seat for the Carmarthenshire Archaeology Day! On Saturday 2nd March 2013 in the Halliwell Centre, Trinity/St Davids, Carmarthen campus a range of topics will be covered. Speakers include Dr Eurwyn Wiliam on Welsh cottages, Rod Bale of Trinty/St Davids Lampeter on the potential for tree rings dating evidence in Wales, Ed Davies discussing excavations on the earlier garden at Middleton Hall/National Botanic Gardens. Results from excavations in east Carmarthenshire by Cotswold Archaeology will be revealed, Duncan Schlee will uncover the history of the Black Mountain lime industry and James Meek will bring everyone up to date on the current archaeological projects in the region. Menna Bell will be looking at ways you can get involved!

A range of exhibitions will also be on display so if anyone would like an opportunity to showcase their work, their group or society then we would love to hear from you. Please contact Ed Davies on 01558 825993 or e.davies@dyfedarchaeology.org.uk. Booking is essential, with a cost of £12 to include a light buffet lunch and refreshments.

Diwrnod Archaeoleg Sir Gaerfyrddin

Dydd Sadwrn 2 Mawrth 2013

Archebwch yn gynnar i sicrhau eich sedd ar gyfer Diwrnod Archaeoleg Sir Gaerfyrddin! Ar ddydd Sadwrn 2 Mawrth 2013 yng nghanolfan Halliwell, ar gampws Y Drindod/Dewi Sant, Caerfyrddin, caiff ystod o bynciau eu trafod. Mae siaradwyr yn cynnwys Dr Eurwyn Wiliam ar fythynnod Cymru, Rod Bale o'r Drindod/Dewi Sant Llanbedr Pont Steffan ar y potensial ar gyfer tystiolaeth am ddyddiad blwyddgylch yng Nghymru, Ed Davies yn trafod cloddfeydd ar yr ardd gynharach yn Neuadd Middleton /Y Gerddi Botaneg Cenedlaethol. Caiff canlyniadau o gloddfeydd yn nwyrain Sir Gaerfyrddin gan Cotswold Archaeology eu datgelu, bydd Duncan Schlee yn datgelu hanes diwydiant calch y Mynydd Du a bydd James Meek yn rhoi diweddariad i bawb ar y prosiectau archaeoloegol presennol yn y rhanbarth. Bydd Menna Bell yn edrych ar ffyrdd y gallwch gymryd rhan!

Bydd ystod o arddangosfeydd hefyd yn cael eu harddangos felly os byddai unrhyw un yn hoffi cael cyfle i arddangos eu gwaith, eu grŵp neu eu cymdeithas, byddem wrth ein boddau yn clywed gennych. Cysylltwch ag Ed Davies ar 01558 825993 neu e.davies@dyfedarchaeology.org.uk Mae archebu lle yn hanfodol, gyda chost o £12 i gynnwys cinio bwffe ysgafn a lluniaeth.

Dyfed Archaeological Trust is now on Facebook and Twitter.

Like us on Facebook; Search for **Dyfed Archaeology**

Follow us on Twitter; Search for **@DyfedArch**

Mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed ar Facebook a Twitter yn awr.

Hoffwch ni ar Facebook; Chwiliwch am **Dyfed Archaeology**

Dilynwch ni ar Twitter; Chwiliwch am **@DyfedArch**